**Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru (WGSSS)**
**Ymchwil ar Waith**

**Canllawiau Lleoliad Lletyol**

Mae Ymchwil ar Waith yn gyfle datblygu ehangach i ymchwilwyr ôl-radd Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru fel rhan o'u PhD,  wedi'i ariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol o dymor yr Hydref, 2024.

Fel rhan o Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru, gallwch dderbyn ymchwilydd ôl-radd (myfyriwr PhD) gwyddorau cymdeithas i gydweithio â'ch sefydliad am yr hyn sy'n cyfateb i dri mis fel rhan o'u lleoliad Ymchwil ar Waith.

Gall myfyrwyr Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru un ai wneud cais am leoliad sydd wedi ei hysbysebu, neu gallant gynnig eu lleoliad eu hunain drwy weithio gyda sefydliad sy'n fodlon gwneud hynny.

Mae lleoliadau'n hyblyg i gefnogi pob ymchwilydd ôl-radd i gymryd rhan ac i elwa arnynt. Fe'u trefnir i'w cymryd ar amser sy'n sicrhau cyn lleied o aflonyddwch â phosibl i waith ymchwilydd, sydd fel arfer yn ystod ail neu drydedd flwyddyn y rhaglen PhD (neu'r hyn sy'n cyfateb i efrydiaeth ran amser). Gallant ddigwydd yn y cnawd neu'n rhithiol, ac yn llawn amser neu'n rhan amser, i weddu i ofynion pob ymchwilydd.

Nod y lleoliad yw cynnig cyfle gwerthfawr i'r ymchwilydd gymhwyso ei arbenigedd academaidd mewn lleoliad go iawn, wrth ddatblygu set ehangach o sgiliau proffesiynol sy'n hanfodol wrth ystyried gyrfaoedd o fewn y byd academaidd a thu hwnt. Gall y rhain gynnwys arloesedd ac entrepreneuriaeth, datblygu polisïau, ymgysylltu â rhanddeiliaid, cyfathrebu â'r cyhoedd, a rhwydweithio strategol.

Drwy letya lleoliad, bydd eich sefydliad yn elwa ar fewnwelediadau ffres, dulliau sydd wedi'u llywio gan ymchwil, a'r cyfle i feithrin cysylltiadau â'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr gwyddorau cymdeithas.

**Beth yw'r broses o ran lletya lleoliad?**
Gofynnir i sefydliadau lletyol lenwi ffurflen cynnig lleoliad, a fydd yn cael ei hadolygu gan dîm Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru i sicrhau ei bod yn bodloni ein disgwyliadau a chanllawiau'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. Ar ôl adolygu'r ddogfen hon, bydd yn cael ei defnyddio i hysbysebu eich cyfle i'n Hymchwilwyr Ôl-radd.

Mae'r templed pro forma yn gofyn am y wybodaeth ganlynol:

- Disgrifiad o'r project neu'r gweithgaredd arfaethedig
- Sgiliau a phrofiadau gofynnol
- Lleoliad a fformat (yn y cnawd, o bell, neu hybrid)
- Trefniadau cefnogaeth i fyfyriwr
- Dyddiad dechrau a hyd a ffefrir
- Manylion cyswllt i gael gwybodaeth bellach
- Y broses gwneud cais a dewis

Mae sefydliadau lletyol yn gyfrifol am dderbyn, llunio rhestr fer a rheoli'r broses ymgeisio fel yr amlinellir yn y pro forma. Ar ôl dewis ymgeisydd, rhaid i'r lletywr gadarnhau'r penderfyniad gyda'r myfyriwr a Chydlynydd Ymchwil ar Waith Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru.

**Dim ond ar ôl y canlynol y gall lleoliad ddechrau:**

- Mae'r myfyriwr wedi cyflwyno ei gais am gymeradwyaeth lleoliad i Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru, mae'r brifysgol wedi cwblhau'r cymeradwyaethau angenrheidiol, gan gynnwys caniatâd goruchwyliwr a gwiriadau diwydrwydd dyladwy
- Mae cytundeb wedi'i lofnodi ar waith rhwng y gwesteiwr, y myfyriwr, a phrifysgol y myfyriwr

Mae croeso i chi hysbysebu mwy nag un cyfle lleoliad, ac rydym yn argymell bod lleoliadau'n cael eu hysbysebu am o leiaf 4 wythnos er mwyn denu digon o ddiddordeb.

**Pa fath o leoliadau sy'n addas**

Gall lleoliadau ddigwydd o sefydliadau lletyol ar draws y byd academaidd, polisi, busnes neu sefydliadau cymdeithas sifil, a gellir eu cynllunio mewn cydweithrediad â'r myfyriwr, neu gan eich sefydliad gyda chanlyniad o'ch dewis.

Gallai gweithgareddau penodol gynnwys:

- Gweithio ar her ynghyd â rhanddeiliaid yn y diwydiant
- Rhannu gwybodaeth â llunwyr polisi ar bwnc penodol
- Cyfrannu at ddatblygiad rhaglen neu wasanaeth
- Lledaenu canfyddiadau ymchwil a phrofi syniadau ymchwil
- Darparu cefnogaeth ymchwil: Cynnal adolygiadau llenyddiaeth, arolygon a chyfweliadau
- Dadansoddi setiau data a rhoi adborth i'r sefydliad ar ganfyddiadau
- Datblygu a chyfrannu at weithdai, seminarau a hyfforddiant ar gyfer rhanddeiliaid
- Cyfnewid gwybodaeth; Nodi cyfleoedd newydd a meithrin perthnasoedd â chleientiaid a rhanddeiliaid presennol

**Gofynion y lleoliad:**
Yn ôl Canllawiau lleoliadau'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, rhaid i'r lleoliad gwmpasu'r canlynol:

- Canolbwyntio ar broject, her neu gwestiwn ymchwil cynnil a fydd yn galluogi'r myfyrwyr i adeiladu ar y sgiliau y maent yn eu caffael trwy eu hastudiaethau doethurol.
- Diffinio'n glir yr allbynnau/targedau cyflawnadwy disgwyliedig
- Nid yw'n ffordd o ddirprwyo staffio dros dro nac yn cwmpasu tasgau busnes arferol
- Yn glir o ran fformat (llawn amser/rhan amser a lleoliad)
- Yn cynnwys manylion y gefnogaeth y bydd y myfyriwr yn ei derbyn yn ystod y lleoliad, gan gynnwys mynediad at offer gwaith a chyfraniad at unrhyw gostau cysylltiedig sy’n codi o ganlyniad i'r lleoliadau (h.y. teithio a chynhaliaeth)
- Bydd lleoliadau’n para 3 mis yn llawn amser (13 wythnos) neu gyfwerth rhan amser (e.e. 6 mis, 26 wythnos rhan amser) a gallant gynnwys cyfleoedd yn y cnawd, o bell a chyfleoedd hybrid.
- O ran lleoliad academaidd, rhaid i fyfyrwyr gael eu lleoli y tu allan i'w hadran arferol ac nid gyda'u goruchwyliwr neu dîm ymchwil presennol, er mwyn caniatáu i'r myfyrwyr gymhwyso sgiliau ymchwil mewn gwahanol amgylcheddau.
- O ran ysgoloriaethau cydweithredol, gall y lleoliadau fod gyda'r bartneriaeth gydweithredol, ond byddai angen i'r lleoliad fod yn broject ar wahân i'w PhD.
- Gan fod hon yn elfen graidd o raglen ddoethurol y myfyriwr, bydd gofyn iddynt gwblhau adroddiad diwedd lleoliad a fydd yn orfodol.

**Beth i’w ddisgwyl gan Leoliadau Lletyol:**

- Os caiff ei wneud yn y cnawd, disgwylir i’r lleoliad lletyol ddarparu mynediad at ddigon o le gwaith ac offer sydd eu hangen i ymgymryd â'r lleoliad
- Cael aelodau staff profiadol wrth law i helpu i ddatblygu sgiliau/gweithredu fel mentor
- Sicrhau bod myfyrwyr wedi'u hymgorffori mewn tîm ac wedi'u cynnwys ym mhob cyfarfod, digwyddiad a chyfle hyfforddi sydd ar gael (lle bo'n briodol)
- Sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu cymhwyso drwy gydol y broses recriwtio ac i'r gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr yn ystod eu lleoliadau
- Unrhyw gostau teithio sy’n codi yn ystod y lleoliad, h.y. teithio i gyfarfodydd busnes neu ddigwyddiadau lleoliad, i'w talu gan y sefydliad lletyol.
- Ni ddylai myfyrwyr dderbyn cyflog yn ystod eu lleoliad gan y byddant yn parhau i fod wedi'u cofrestru fel myfyrwyr a byddant yn parhau i dderbyn eu hariantal am hyd y lleoliad, sy'n rhan o'u hyfforddiant doethurol.
- Cwblhau ffurflen adborth ddiwedd y lleoliad
- Cyfathrebu’n agored â Chydlynydd Ymchwil ar Waith Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru os bydd problemau'n codi, neu os bydd cyfnod o salwch neu absenoldeb meddygol.
- Cynorthwyo gydag unrhyw asesiad risg a dogfennaeth ofynnol i ddangos cyfrifoldeb sefydliadol am iechyd a diogelwch y myfyriwr yn ystod y lleoliad gyda phrifysgol gartref y myfyriwr.

**Manteision allweddol i sefydliadau lletyol:**

Cost isel (os o gwbl) i'ch sefydliad: Mae'r ymchwilydd yn parhau i fod wedi'i gofrestru fel myfyriwr a bydd yn parhau i dderbyn ei ariantal trwy ei efrydiaeth PhD.

- Persbectifau ffres a mewnwelediadau wedi'u llywio gan ymchwil: Mae lleoliadau yn helpu i bontio ymarfer â'r meddwl academaidd diweddaraf.
- Mynediad i rwydweithiau academaidd: Meithrin cysylltiadau ag ymchwilwyr, prifysgolion a chanolfannau ymchwil.
- Cyfleoedd datblygu staff: Yn cynnig profiad i'ch tîm o oruchwylio a chydweithredu ag ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa.
- Gwell gwelededd a photensial recriwtio: Codi ymwybyddiaeth o'ch sefydliad ymhlith ymgeiswyr doethurol a darpar raddedigion.
- Partneriaethau Strategol: Cryfhau perthnasoedd ag Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru, ei phrifysgolion partner, a staff academaidd.

**Cyswllt a gwybodaeth bellach**

Am ragor o wybodaeth, neu i drafod lleoliad posibl neu eich diddordeb mewn cymryd rhan yn y cynllun Lleoliadau Ymchwil ar Waith, cysylltwch â

Siân Shepherd - Cydlynydd Ymchwil ar Waith – esrcrip@bangor.ac.uk